Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Mawrth 2021

Annwyl Llyr

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gweithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Diolch am eich llythyr ar 2 Chwefror ac am y cyfle i ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y mater pwysig hwn.

Mae arolygon y Comisiwn yn cefnogi canfyddiad eich gwaith ac yn rhoi llwyfan cryf inni bwysleisio'r pwnc hwn yn ein gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at agweddau canlynol ein strategaeth bresennol:

- Mae egluro bod y Senedd yn cytuno ar Drethi Cymru eisoes yn rhan o'n trafodaethau ymgysylltu safonol, boed ymysg ysgolion, grwpiau ieuenctid neu oedolion. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn haws i'w egluro pan fydd gennym enghreifftiau mwy pendant o sut mae hyn yn effeithio ar fywydau bob dydd pobl;

- Mae ein gwefan newydd yn cynnwys **tudalen** bwrpasol sy'n esbonio'r pwerau hyn gan ddefnyddio iaith glir a hygyrch;

- Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Er enghraifft yr wythnos diwethaf, rhoddodd y tîm newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol sylw i'r ddadl ar elfen treth incwm y gyllideb ar Facebook mewn ymdrech ymwybodol i godi ymwybyddiaeth o'r pŵer hwn.

Rwy'n falch o gael y cyfle i sicrhau'r Pwyllgor bod y mater hyn, yn wir, yn rhan o strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn ac y bydd swyddogion yn parhau i weithio â rhanddeiliaid

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

mewnol ac allanol i godi ymwybyddiaeth o’r pynciau pwysig hyn.

Cofiwch fod croeso ichi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth ar eich Pwyllgor.

Yn gywir



Suzy Davies

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg / We welcome correspondence in both Welsh and English.